



**Pibonwy o dan Pont Cain, Cwm Dolgain, Trawsfynydd, 23 Chwefror 2013. Llun: Keith O'Brien**

## Natur Didostur


Nid yw Tachwedd yn nodedig am dywydd da ar y gorau, ryw fis llaith a niwlog yn ôl traddodiad, ond am hanner awr wedi un yn y pwn ar yr 8fed o Dachwedd 1882 bu i natur ddangos ei hochr dinistriol a didostur trwy storm o fellt a tharanau ofnadwy allai neb gofio mo'i thebyg erioed o'r blaen. Cymaint oedd ffynigrwydd y storm fel i Edward Morris, bugail Dol Moch, alw yn Feidiog Isa' i lochesu rhag y tywydd dychrynllyd. Croesawyd ef i mewn gan feistr y tŷ sef David Jones, yr hwn fyddai'n rhaid wynebu profedigaeth fwyaf ei fywyd mewn ychydig funudau. 'Roedd ei wraig, Gwen, wedi mynd ar neges i'r pentre' gyda'i chymydog, Ann Williams, Dol Mynach, a hynny y tro cyntaf iddi adael y tŷ ers misoedd oherwydd gwaelledd.

Tŷ wedi ei adeiladu gyda'r simdde yn y canol ydoedd, ffordd effeithiol iawn o rannu gwres i bob ystafell. Yn ôl y sôn, ar y pryd, 'roedd David Jones ac Edward Morris wrth ffenestr y talcen, Lizzie, y ferch wrth fwrdd gyferbyn â'r ffenestr ffrynt, wrth yr aelwyd 'roedd y ddau fachgen ieuengaf a'r mab arall gyda'i dad. Dyma'r olygfa yn nrama greulon natur, pan, mewn tariat amrant chwalodd y simdde'n deilichion a dod a llawr y llofft i lawr gydag ef a chladdu'r ddau fachgen ieuengaf o dan bentwr pedair troedfedd a hanner o rwbel. Tafliwyd Lizzie i ochr arall yr ystafell a'i haelodau yn sownd yn y malurion a'i phen wrth ymyl ci Edward Morris a oedd yn farw wrth y dreser - ond yn rhyfeddol 'roedd Lizzie'n fyw! 'Roedd ei brawd deg oed, David, hefyd ar lawr gyda llosgiadau trwm arno. Y cymydog, Edward Morris, wedi ei frawychu mor ofnadwy nes iddo fethu canolbwyntio na gwneud dim - ei wallt, locsen a'i ddwylo wedi llosgi'n ddifrifol. 'Roedd David Jones, y tad, yn ffodus i ddianc gyda dim ond ychydig ddeifio i'w wallt.

Bu i William Williams hel tri neu bedwar o gymdogion eraill at ei gilydd i ddychwelyd i Feidiog Isa' er mwyn cyrraedd a rhyddhau cyrff y plant. Tua'r un pryd yn dod o Fotŷ Llelo, ar ochr arall y cwm, ac yn ymladd ei ffordd trwy'r llifogydd oedd Ellen Roberts. 'Roedd hi wedi gweld y difrod o bell ac wedi rhuthro yno i gynorthwyo mor fuan a medrai. Bu iddi gyfarfod y fintai fach o Ddol Mynach nid nepell o'r tŷ a sylwodd nad oedd yr un enaid byw i weld yno, gofynnodd yn bryderus a chwerw, "A oes neb o'r teulu yn fyw?".....

Llun a stori: Keith O'Brien

Os am stori Keith yn llawn o gylchgrawn Rhamant Bro (2007), cylchgrawn blynyddol Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog, ewch i [http://llennatur.com/files/u1/Trychneib\\_Feidiog\\_Isa\\_Terfynol.pdf](http://llennatur.com/files/u1/Trychneib_Feidiog_Isa_Terfynol.pdf)



## Cenllysg yn malurio

Friday being the xxviiiith day of Maie 1641 there happened great raine tempest lightnings thynder and hailstones, by reason of wh'ch hailstones the beans, in and about Abergeley, were greatly crushed and bruised etc.

Dyddiadur Peter Roberts, Notary Public 1607-1646 (Cwtta Cyfarwydd)

Gweler Bwletin 18 (tud.1) "Mentyll tramor a chenllysg dramor"  
<http://www.lennatur.com/files/u1/Cylchgrawn18.pdf>

## Ymdeithwyr y pinwydd



Ma yna griw ohonom (16 o olffwyr Cymry Cymraeg) yn mynd i Bortiwgal tua'r adeg yma bob blwyddyn a thra yno (24 Chwefror - 1af o Fawrth eleni). Tynnwyd y llun ar un o gyrsiau golff Vilamoura (yr Algarve) - cyrsiau golff gyda llaw sy'n enwog am eu tirweddau o goedwigoedd pinwydd. Mi nes i gyfri 31 lindys yn y rhes a'r symudiad 'cadwynnaidd' yn ddigon o ryfeddod...

Dim ond ar ôl dod adref a rhoi y geiriau 'caterpillars in a chain' yn Google nes i sylweddoli fod y lindysiaid yma yn medru

bod yn beryg ....yn ôl Google!!! Fel arfer, dwi'n un sy'n dueddol o ddal popeth 'blewog a ballu' yn fy llaw.... diolch i'r drefn na nes i ddim y tro yma.

Am y cwestiwn o 'ba lindys ydynt?' ... fi gymrodd, ar ôl yr hyn a ddarllenais ar y We mai y rhywogaeth pinwydd oedd y rhain gan mai ar gwrs golff ynghannol coed pinwydd y glanniodd fy mhel, wrth ymyl y Gadwyn Ddilynnol Flewog!

Llun a hanes Hywyn Williams

## Darganfod rhywogaeth newydd...

...trwy lun ar wefan

<http://blog.flickr.net/en/2012/08/10/finding-a-new-species-on-flickr/>

mwy o'r stori yn fan hyn

[http://en.wikipedia.org/wiki/Semachrysa\\_jade](http://en.wikipedia.org/wiki/Semachrysa_jade)

Ffotograffwyr Llên Natur... hei lwc!

Robin Owain

## Creithio

Wedi i ti fod yn gofyn beth oedd CREITHIO y dydd o'r blaen mi fum yn holi rhai neithiwr yn Tan y Bwlch ac fe ddaeth yr ateb eu bod yn ei ddefnyddio yn Blaenau Ffestiniog ac fod y gair yn ei gyfanrwydd yn Geiriadur Bruce o dan *burn*. Yno mae yn dweud ei fod yn cael ei ddefnyddio i feddwl llosgi eithin /grug ac ati (*burn*: goddeithio, godeithio, ac ar lafar creithio). Heddiw cefais olwg ar erthygl gan rhywyn o Powys ac maent yn ei ddefnyddio yn Pywys hefyd.



Llun: Duncan Brown Llosgi eithin Dyswynn Chwefror 2008

Tom Jones

## Corn Galw

Corn Galw, neu cragen *conch*, gwrthrych cyffredin iawn o gwmpas tai. Ond beth yw ei hanes?. O ble y daeth? Pa bryd? Pwy a'u cludodd yma? Pam? - fel addyrn? fel modd i alw gweithwyr o'r caeau? Pwy sy'n gwybod? Pwy sy'n cofio? Oes yna fasnach iddynt o hyd? Oes gennych stori am un? Rhowch floedd.



## Uchelwydd William Bulkeley

4th. Ebrill 1748 The Wind E. blowing fresh and cold & generally Sun shiny & dry all day; Inoculated to day 6 berries of the Mistletoe, 4 in the smooth rind of 4 Oaks, one in an Apple tree, & one in an Ash. WB

## Cored Trecastell

Carreg fedd ym mynwent Llanfaes, Môn. Fishing with nets from boats in the Straits is attested in the eleventh century. The location is likely to have been between Penmon and Trecastell. ...an exceptional concentration of large fish traps lie on the shoreline north and south of the outflow of the Afon Lleiniog. The date of these weirs is uncertain but their origins are likely to have been in the middle ages. There is clear evidence for their repair and realignment.

A dyma lun arall yn dangos cored Trecastell. Diddorol yw nodi y bu John Williams yn byw mewn lle o'r enw Gorad Tre'r Castell yn y 19g.




<http://www.heneb.co.uk/hlcpenmon/10aberlleiniog.html>

<http://www.flickr.com/photos/hamishfenton/3590391212/#/>

Sylw: Ifor Williams

## Pwll y Gwichiad ddoe a heddiw

Mae'r llun uchaf yn dangos yr olygfa a baentiwyd gan R. Green (yn 1882) fel yr oedd ym 1852. Ar y chwith fe welwch hen ffermdy Pwll y Gwichiad ble ganed yr arlunydd ac ysgythrwr enwog, Hugh Hughes, ym 1790. Mae'r ail lun yn dangos yr olygfa o geg y pier yn Llandudno fel ag y mae heddiw. Bu llawer newid dros y blynyddoedd. Dyma fyddai Sgwar y Tywysog Edward ble byddai hen fysus bach y dref yn cychwyn ar eu taith o gylch y Gogarth, ond newidiodd hynny hefyd.



Llun a hanes: Gareth Pritchard

## Pôs y mis



Dyma luniau haid tri math y rydydd: cornchwiglod a phibyddion torchog gan Alun Williams, a rhostogion

cynffonddu gan Vivien Finn. Pa un ydi pr'un? Y cyntaf o'ch plith i'w rhoi yn



eu trefn gywir, sef uchaf, canol ac isaf, trwy "Cysylltwch" erbyn 15 Ebrill 2013 gaiff docyn llyfr £10.

## Dyfeisgarwch cefn gwlad



Dyma sofffa wedi ei wneud o raff llong mewn gardd yn Rhoscolyn  
I weld dyfeisgarwch tebyg, y tro hwn o Normandi, ewch i Fwletin 22 (tudalen 4)

<http://www.llennatur.com/files/u1/Cylchgrawn22.pdf>

Dewch a'ch lluniau chi atom o ddyfeisgarwch tebyg.

## Gair i gall Mistar Golygydd

Gwylia di i Gymdeithas Enwau Lleoedd weld yr enw Gogarth Fach (Bwletin 60)! Onid Trwyn y Fuwch yw'r enw Cymraeg arno? Steffan ab Owain

## Clipiau fideo larfau gweision neidr

Meddai'r cofnoddydd gwesynnod Allan Brandon: "I'd like to draw your attention to some wonderful video footage about the underwater life of dragonflies and other invertebrates by a Mexican chap. The videos are mostly of Mexican species. Here's an example: Hunting by larvae of the Spot-winged Glider (*Pantala hymenaea*):

[http://www.youtube.com/watch?v=pkOpWKyM\\_go](http://www.youtube.com/watch?v=pkOpWKyM_go). This video clearly shows how larvae fire out their specialised, extendable underlip (labium or mask) to grab prey by the end claws. They then drag prey back to begin eating. It also shows jet propulsion used by dragonflies to get around more quickly than by just walking". Mae ychwaneg ohonyn nhw i'w cael yn rhifyn cyfredol Y Fursen

[http://llennatur.com/files/u1/No\\_70\\_21\\_Mar\\_2013\\_larvae\\_videos.pdf](http://llennatur.com/files/u1/No_70_21_Mar_2013_larvae_videos.pdf).

## Hwyaden Mwscofi (Bwletin 60, t. 4)... MWY

Chwiaid 'Muscovy'. Mae llawer yn dweud nad chwiaid ond math o wydd ydynt. Pori gwair ydy eu prif gynhaliaeth. *Cairina moschata* ydy'r clwiw i ddehongli pam mae pobl yn eu galw o 'Moscafa' (trawslythyriad o'r enw Rwseg): mae pobl yn gweld *moschata* ac yn meddwl o Rwsia, yn hytrach nag rhywbeth efo arogl. Ond yr oedd hyd yn oed Linnaeus wedi drysu efo nhw, gan o 'Cairo' golyga'r gair *Cairina*. Maent i fod yn gig ardderchog, er nad ydwyf wedi bwyta un. Nid ydyw'r enw Almaeneg yn lluchio unrhyw olau ar darddiad gwreiddiol yr adar hyn, *Warzenente*, neu *Moschusente* (*chwaden ddfadenog*, neu *mwschgwaden*) ydy enwau'r adar arnynt yn yr iaith hon. Bydd rhaid fynd i iaith y bobl frodorol yn ardaloedd lle hannai'r aderyn i gael mwy o syniadau.

Lari Parc

## Cwpan robin goch

Scarlet elf cups *Sarcoscypha austriaca* are around now [ddiwedd Chwefror 2013] and the bright red colour makes them quite visible. They are a winter fungus and can be found on dead, often on mossy wood in shady, damp woodland. Until fairly recently they were all called *Sarcoscypha coccinea* but specimens were looked at more critically and it was found that there were actually 2 species differing in microscopical characters but identical macroscopically. *S. austriaca* is by far the most common species around, although I have identified the genuine *S. coccinea* from samples collected on Anglesey.



Llun a sylw: Debbie Evans

## Ymhellach i hanes trychineb y Feidiog Isaf (tud. 1)

The number of deaths from lightning strikes has fallen markedly over the last 100 years or so, this is owing to changed nature of occupation, ie less people employed in agriculture & other outdoor activities (& probably more awareness & better weather forecasts). Far more males are killed by lightning than females, ratio 5:1:

[http://www.torro.org.uk/site/lightning\\_info.php](http://www.torro.org.uk/site/lightning_info.php)

Huw Holland Jones

## Ser gwib Beddgelert 1947 (Bwletin 61, tud. 1)...MWY

Difyr darllen am y ser gwib sy'n cyrraedd y ddaear. Mae gen i lyfr yma "The authenticated meteoric falls of the British Isles" cyhoeddiad personol gan James D Robinson (2009). Yno mae pennod fach am un Beddgelert. Mae darn ynddo hefyd am un Pontllyfni yn 1931. Mae llun y ddwy garreg yno hefyd ynghyd â llun John R Owens, 'perchennog' carreg Pontllyfni. Cefais gopi gan yr awdur am imi sgwennu record am y garreg a welais yn croesi i gyfeiriad gog Iwerddon, lle glaniodd. Hyn ym Mai 1969.

Llyr Gruffydd

## Ôl Rifynnau cylchgrawn Nature in Wales

....diolch i Llyfrgell Genedlaethol Cymru YMA!

<http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/listissues/llgc-id:1220475>

## Atgofion eira 1962-63 Nantcol, ger Harlech



Llun: Arawn Jones ar fferm Cerrig Gwaenydd, Harlech, 2 Chwefror 1963

Yn ystod y tywydd gaeafol yma daeth atgofion yn ôl am aeaf hanner canrif yn ôl.

Dechreuodd y tywydd oeri tua dydd Nadolig 1962 ac ymhen pedwar diwrnod roedd dŵr i'r tŷ wedi rhewi ac mi roedd yn 7fed o Fawrth cyn y gwnaeth ddadmer. Ni fu plant y Cwm yn yr ysgol lawer yn ystod Ionawr a Chwefror. William Pugh, Llwynonn oedd yn eu cario i'r ysgol bryd hynny ac yn aml iawn ni allai ddod ddim pellach na'r Capel. Roedd y plant yn cerdded i'w gyfarfod os nad oedd gormod o eira. Byddai lori'r Cyngor Sir yn dod i fyny i raeau, ond yna lluwchfeydd o eira a rhownt cryf ac felly o wythnos i wythnos.

Gan nad oedd yno gerbydau 4x4 bryd hynny roedd gan y rhan fwyaf ohonom gadwyni i roi am dears ein ceir a byddem yn medru mynd i lawr i negeseua ar rai adegau. Roedd yn haws cadw'r defaid yn fyw yn ystod yr heth yma na gaeaf 1947 gan fod yna ddwysfwdy i'w gael iddynt erbyn hyn. Byddai'r post yn cael ei adael inni yn Hendre Waelod weithiau, ac arferai Ifor Edwards (dros Robert Jones) o Harlech ddod â negesau gyda fan bob wythnos ond methai yntau ddod ymhellach na'r Capel.

Roedd yr eira'n dechrau dadmer ochr ogleddol y Cwm tua diwedd Chwefror a chofiaf i'r plant a finau fynd am dro dros bont Cilcychwyn i gael gweld yr haul am ychydig.

Gweneira Jones

## Nodyn i'ch dyddiadur.

**Bydd ein Symposiwm Pan-Geltaidd "Dehongli Cynefin - Datblygu Cymuned" yn cael ei gynnal ym Mhlas Tan y Bwlch o'r 18 - 22 o Dachwedd 2013, ar y cyd â Llydaw, Yr Alban, Ynys Manaw, Cernyw a'r Iwerddon.**

## Cant o eiriau am eira?

Llun agos o'r eira a ddisgynnodd ben bore'r 23 Chwefror 2013 yng nghardd Gwelfor, Waunfawr SH526601. Beth am i ni gasglu lluniau o wahanol fathau o eira er mwyn eu categorioedd a'u henwi yn Gymraeg. Croesewir pob cymorth gan ffotograffwyr Llên Natur.



Meddai Bethan Wyn Jones (Daily Post Rhag 15, 2011): diolch yn fawr iawn i J. Heddwyn Jones, Dwygyfylchi am ei gasgliad o ddywedadau am y tywydd oer, ac yn arbennig am "cenllysg i eira – crasod i law". Doeddwn innau chwaith wedi clywed y gair crasod erioed o'r blaen.

A dyma erthygl ddaeth i law trwy Bethan o Ail Natur (43, 13 Mawrth 2013): Yn dilyn y cyfeiriad at odi a chrasod, bum yn siarad â Gareth Pritchard Hughes o Rosllannerchrugog gan fod odi yn air cyffredin yno am fwrw eira. Yn ôl Gareth roedd "Odi" yn arfer cael ei ddefnyddio ar lafar yn siroedd Fflint a Dinbych, ble siaredid yr hen Bowyseg ac mae'n hen air sy'n mynd yn ôl i'r 10fed Ganrif. Mae pennill fel hyn yn y Rhos:

"Odi, odi blawd yn codi  
Dŵr ar y tân i olchi llestri"

Dydyn nhw ddim yn taflu peli eira yn y Rhos chwaith, maen nhw'n "mopio". "Mopen" ydi pelen eira. Roedd Euros Bowen wedi dweud mai crasod oedd y gair am genllysg yn Nolgellau – cras ôd. Manod (mân ôd) wedyn ydi eira mân sy'n lluwchuo, hynny ydi eira'n cael ei yrru gan y gwynt. Roedd gwedd merch yn cael ei ddisgrifio "fel mannod". Yn ei Gywydd i Ferch mae Dafydd ab Edmwnd (1450 – 1497) oedd yn dod o Hanmer, ym Maelor Saesneg yn canu fel hyn:

"Dy wyneb fel ôd unnos  
Dy wrid fel bagad o ros."

Mae'r Ficer Pritchard wedyn yn disgrifio puredigaeth drwy waed Crist:

"Crist a'i waed a ylch dy bechod  
Ac a'th wnaiff mor wyn â'r mannod."  
Yn y Beibl mae cyfeiriad at ôd yn Diarhebion 26, :  
"Megis ôd yr haf, neu law y cynhaeaf, felly nid cymwys i'r ffôl anrhydedd"

Mae siwr fod llawer ohonom yn gyfarwydd â geiriau'r Gelynnen:

"Pe bai hi yn law neu ôd, mi allwn fod yn llawen;

Neu ryw dywydd a fai'n fwy, 'does dim ddaw trwy y gelynnen". Mae hen bennill sy'n canu fel hyn:

"Caëdd pawb ei ddrws yn chwipyn,  
Mae'r ôd yn barod ar ben Berwyn;  
Daw i lawr â'r niwl i'w ganlyn,  
Hulyn gwyn i hulo'n gwanwyn."

Fe ganodd Gwenallt:

"Lle'r aeth eu gwychder a'u gwedd?  
Lle heno mae ôd llynedd?"  
Ac meddai William Llyn:  
"Trwm ar iâ yw tramwy'r ôd,  
Trymach yw torri amod."

Rydw i'n arbennig o hoff o hon gan T. Eurig Davies:

"Yr ôd, os hir yr oeda  
Ar ryw drum, hwyr y daw'r ha."  
Ai fel hyn y bydd hi eleni?

## Wyau'r siobyn: pedwar allan o bedwar yn dweud yr un peth



Siawns go-lew eu bod yn gywir felly. (Gol.)

Tynnais y llun yma ym mis Medi 2011 [yn ardal Penygroes, Arfon, SH471531]. Erbyn y gwanwyn dilynol roedd rhywfaint o'r edafedd wedi breuo gan ddatgelu chwiler brown oddi mewn.

Methais a dilyn rhagor o'i hanes am i'r cwbl gael ei reibio gan aderyn y to. Fy nghwestiwn: o dderbyn mai wyau ydi'r pethau bach crynion a welir yn y llun, a ydynt o'r un rhywogaeth a'r chwiler?

Llun a sylw gan Nigel Owen Pitts

Atebion:

The Vapourer *Orygia antiqua* Overwinters as an egg, attached amongst several hundred others, on the outside of the female's cocoon. These are often found on tree-trunks, fences and under the window-sills or eaves of buildings.

(Skinner B. The Moths of the British Isles)

Mae'n edrych fel cocwn sidan i mi. Mae rhai o'r gwyfynod sydd efo benyw heb adenydd yn dodwy eu wyau ar y cocwn. 'Vapourer' efallai. Mae'r vapourer yn hedfan ym mis Medi (Mae'r rhan fwyaf o'r gwyfynod efo benyw heb adenydd yn hedfan (neu ddim yn hedfan!) yn y gaeaf).

Julian Thompson

Mae'n bosib taw wyau y siobyn ydynt. Ond fyddai'n defnyddiol gwybod pa goed/llwynni sydd gyfagos.

Bryan Jones

Bosib vapourer? [siobyn]

John Harold

## Y llewyn a'r crwban



Meddwl am y llewyn [Bwletin 61], a'r pethau y gallwn eu dirnad o fodolaeth geiriau yn y Gymraeg..... Beth am 'crwban'? Onid modernbeth yw dweud 'crwban/crwban y

môr' - pwy yng Nghymru welodd 'tortoise' slawer dydd? Oni fyddai 'crwban y tir/crwban' yn ddeicotomi mwy cymreigaidd?

Gwyn Jones

Difyr Gwyn... difyr iawn hefyd. Wedi edrych yng Ngeiriadur y Brifysgol, dyma gallwn ei gasglu:

**crwb** < Saes. *crub* = *hunchback* (cf. *crwbi* [Cym.])

**crwban** cyfeiriad cyntaf i olygu anifail y môr (neu chwilen *Carabus*) yw a *sea-crab or lobster*, 1592, ac i olygu *tortoise* yn unig, 1794 (sy'n cadarnhau yr hyn rwyf ti'n ei ddweud, mai yn lled ddiweddar y cafodd y gair ei briodoli i *tortoise*).

Felly cytuno yn rhesymegol efo dy ddamcaniaeth mai **crwban** yw'r creadur môr a **chrwban y tir** ddylai'r *tortoise* fod. Ond fel y baset ti'n cytuno dwi'n siwr, dydi teithi iaith ddim pob amser yn dilyn rheswm, ac o ddilyn y rhesymeg a blaenoriaeth i'r defnydd cyntaf, oni ddylen ni alw felly y cimwch (*lobster*) yn **crwban**. Ynteu a oes gormod o ddŵr dan y bont erbyn hyn i geisio gwneud y fath beth? (Gol.)